



5 munud

1. Beth ydy Robot?

Gwrandewch ar y gân *I am a Robot* a'i mwynhau. Edrychwch ar luniau a fideos o robotau a siaradwch â'r dosbarth:

- Beth ydy robot?
- Beth mae'r plant yn ei wybod amdany'n nhw?
- Sut maen nhw'n edrych? Sut maen nhw'n symud?
- Beth maen nhw'n gallu ei wneud/yn methu ei wneud?



15-20 munud

2. Bod yn Robot

Gofynnwch i'r plant eistedd mewn cylch. Dywedwch wrthyn nhw ein bod i gyd am ddychmygu ein bod yn robotiaid. Cofiwch annog y plant i ddal ati i wrando a symud i guriad y gerddoriaeth.

Dechreuwch gyda sut gallai pen robot symud - gofynnwch i blant gwahanol ddangos eu pennau robot. Gofynnwch i bawb gopïo'r 'symudiadau', gan symud i'r ysgwyddau, y breichiau, y dwylo, y coesau a'r traed. Sut byddai robot yn cerdded? Ydy'r plant yn gallu cerdded fel robot?

Gwrandewch ar y gân – mae'r geiriau'n cael eu canu mewn 'llais robot'; rhowch gynnig ar ymarfer dweud prif linell y gân mewn llais robot.

I am a robot
I go beep-beep-beep beep-bop

Amcan a Ffocws Cerddorol:

Gwrando ac ymateb;
Cadw amser wrth symud;
Creadigrwydd a dychymyg

Offerynnau? Na

Hygyrchedd:

Bydd y cynllun gwers hwn yn addas i bob disgybl. Serch hynny, efallai bydd angen i chi addasu'r gweithgareddau i ystyried disgyblion sydd â mân anawsterau dysgu ac anawsterau dysgu penodol.



Defnyddiwch adnodd rhyngweithiol *Bring the Noise: Play It!* ar ein gwefan i chwarae'r caneuon heb leisiau.



Chwaraewch y gân eto heb y llais; ymunwch ag 'I am a robot' gan ddefnyddio eich lleisiau robot newydd a chopio 'symudiadau robot' yr arweinydd. (Defnyddiwch y pen, y breichiau a'r dwylo h.y. arhoswch yn eich unfan!) Gallai'r arweinydd fod yn athro neu'n blentyn.

- Yn yr adran 'This is my robot dance', gofynnwch i un neu ddau o 'robotiaid' ddawnsio yng nghanol y cylch a dangos eu symudiadau robot!
- Bob tro bydd yr adran 'I am a robot' yn dod yn ôl, bydd pawb yn sefyll yn llonydd ac yn gwneud y symudiadau robot yn eu hunfan, gan gopïo'r arweinydd.
- Dewiswch robotiaid newydd i ddawnsio yng nghanol y cylch bob tro bydd yr adran 'This is my robot dance' yn dod yn ôl.



15-20 munud

Amcan a Ffocws Cerddorol:

Creadigrwydd a dychymyg;
Rhythm a symud

Offerynnau? Na

Hygyrchedd:

Mae'n addas i blant sydd â namau echddygol neu wybyddol, neu nam ar y golwg neu'r clyw, gyda mân addasiadau.

3. Dawns Robot

Gofynnwch i'r plant greu eu perfformiad robot eu hunain, gan ddefnyddio eu dyluniadau robot eu hunain a symudiadau dawnsio wedi'u 'rhaglennu'.

Stori robot ar y cyd

Gofynnwch i'r dosbarth ddylunio eu robotau eu hunain; naill ai drwy dynnu eu llun a'u peintio neu drwy eu hadeiladu gyda deunyddiau wedi'u hailgylchu (e.e. bocsys cardfwrdd).

Gallwch wneud y gweithgaredd crefft hwn mewn sesiwn ar wahân i'r gweithgareddau isod.

Ar ôl i robotau'r dosbarth gael eu creu gofynnwch i'r plant am eu robotau.

- Beth ydy enw'r robot?
- Beth mae eich robot yn ei hoffi a ddim yn ei hoffi?
- Beth mae eich robot yn gallu ei wneud?
- Sut ydych chi'n gofalu am eich robot?
- Ysgrifennwch stori ar y cyd o awgrymiadau'r dosbarth am eu robotau.



Rhaglennwch eich myfyrwyr 'Robot'

- Atgoffwch y disgyblion am y teganau a'r dyfeisiau mecanyddol sy'n cael eu defnyddio ar gyfer sesiynau Mathemateg neu Gyfrifiadura. Defnyddiwch nhw i ddangos sut mae modd rhaglennu peiriannau i wneud beth rydyn ni eisiau iddyn nhw ei wneud.
- Gofynnwch i'r plant ddychmygu eu bod yn robotiaid eto a 'rhaglennu' cyfarwyddyd. E.e. cerdded ymlaen am 4 cam; symud eich pen o ochr i ochr 4 gwaith.
- Rhowch gyfarwyddiadau syml i'r dosbarth o robotau eu dilyn.
- Rhowch y plant mewn parau a dweud wrthyn nhw am gymryd eu tro i roi cyfarwyddiadau.
- Allwch chi roi 2 gyfarwyddyd gyda'i gilydd i'r robot? E.e. nodio pen 3 gwaith wedyn troi o gwmpas.

Dyma eich dawns robot!

Gallwch chi ddefnyddio'r gân *I am a Robot* fel sylfaen i'r plant berfformio eu cân eu hunain am robotau.

Defnyddiwch y stori am robotau'r dosbarth a'u symudiadau dawnsio wedi'u 'rhaglennu' i greu geiriau a choreograffi.



Chwiliwch am enghreifftiau o arddulliau dawnsio gwahanol i'w dangos i'r plant. Pa ddawnsiau mae'r plant yn meddwl sydd fwyaf tebyg i ddawnsio robot?

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Cyfathrebu ac Iaith

Corfforol (Symud a Thrin)

Datblygiad Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol (hunanhyder a hunanymwybyddiaeth)

Dealltwriaeth o'r Byd (Pobl a Chymunedau, y Byd, Technoleg)

Y celfyddydau mynegiannol a dylunio (Archwilio, Dychymyg)